

Cyngor y Gweithlu Addysg

Gofynion Rheoleiddio a Chofrestru ar gyfer Athrawon Ysgol Newydd Gymhwys

Dyluniwyd y canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr sydd i ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd hon. Mae'n disodli'r sesiynau 'paratoi ar gyfer cofrestru' a drefnwyd gan eich darparwyr hyfforddiant. Cafodd y sesiynau eu gohirio oherwydd COVID-19. Bydd y canllaw yn egluro:-

- rôl a chyfrifoldeb y CGA
- sut mae SAC yn cael ei ddarynau
- y gofyniad i gofrestru gyda'r CGA os ydych chi am weithio yng Nghymru wedi ichi gymhwyso
- sut i gael y gorau o'ch cofrestriad gyda ni.

Rheoleiddio er budd y cyhoedd

Lle mae gan y cyhoedd fudd mewn proffesiwn, mae disgwyl y bydd y proffesiwn yn dda-rostyngedig i reoliad proffesiynol.

Nid yw ymarferwyr addysg yn ddim gwahanol o ran meddygon, deintyddion, nyrsys, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ac ati. Byddwch yn gyfarwydd â'r rheolyddion eraill a ddangosir yma sydd i gyd yn rheoleiddio mewn ffordd debyg iawn i'r CGA.

Nifer yr ymarferwyr sydd yn gymwys i gofrestru ym mhob categori – 31 Mawrth 2020

Categori	Nifer
Gweithiwr Ieuencid	429
Gweithiwr Cymorth Ieuencid	692
Gweithiwr Cymorth Dysgu	3,549
Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith	5,449
Athro AB	6,761
Gweithiwr Cymorth Dysgu Ysgol	35,198
Athro Ysgol	38,648

Mae gennym y gofrestr fwyaf cynhwysfawr o ymarferwyr addysg ledled y byd. Mae ymarferwyr o bob un o'r saith grŵp a restrir yma wedi cofrestru gyda ni ac yn darparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae angen cymwysterau gorfodol i fod yn gymwys fel athro ysgol (h.y. Statws Athro Cymwysedig), gweithiwr ieuencid neu weithiwr cymorth ieuencid.

- Y Gofrestr**
- Mae'r cyhoedd yn hygyrch i'r Gofrestr (gwiriad statws cofrestru yn unig). Mae cyflogwyr a chofrestreion yn gallu gweld gwybodaeth gofrestredig fwy manwl. Y llynedd cwblhawyd dros 124,000 o wiriadau ar y Gofrestr. Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd CGA sy'n nodi sut rydym yn prosesu'r wybodaeth a gedwir ar y Gofrestr trwy ein gwefan (www.cga.cymru)
 - Mae'n ofynnol i unigolion cofrestredig gynnal eu cofnodion ar y Gofrestr yn unol â Rheolau Cofrestru 2017. Gellir gwneud hyn ar-lein gan ddefnyddio eich cyfrif **FyCGA**.

Dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Byddwch yn derbyn eich gradd/TAR o'ch prifysgol. Fodd bynnag, ar ran Llywodraeth Cymru, bydd dyfarnu SAC yn cael ei gadarnhau gan CGA.

Dylech fod eisoes wedi derbyn e-bost gennym yn cynnwys eich Rhif Cyfeirnod Athro (RhCA). Os nad ydych wedi derbyn yr e-bost, cysylltwch â ni: cofrestru@cga.cymru

- Ffeithiau Allweddol**
- Mae eich RhCA yn rhif saith digid sy'n unigryw i chi ac bydd yn aros gyda chi trwy gydol eich gyrfa.
 - Nid ydym yn cyhoeddi rhif cofrestru CGA. Bydd cyflogwyr yn defnyddio'ch RhCA, cyfenw a dyddiad geni er mwyn gwirio eich statws cofrestru arlein cyn cychwyn eich swydd.
 - Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau eu cysiau hyfforddi athrawon yn llwyddiannus yn derbyn **Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar 1 Awst 2020**.
 - Bydd eich llythyr a'ch tystysgrif sy'n cadarnhau eich dyfarniad SAC yn cael ei anfon atoch ar 1 Awst neu ychydig ar ôl hynny. Os nad ydych wedi ei dderbyn erbyn canol mis Awst, cysylltwch â ni.
 - Nid yw dyfarniad SAC yng Nghymru yn golygu eich bod wedi'ch cofrestru gyda'r CGA. Er mwyn gweithio yng Nghymru mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen gais, a derbyn cofrestriad gyda'r CGA, yn y categori neu'r categorïau ar gyfer y gwaith rydych chi'n fwriadau ei wneud.

Sut i gofrestru gyda CGA

Os ydych chi'n bwriadu gweithio yng Nghymru mewn rôl sy'n gofyn am gofrestriad CGA, mae'n rhaid eich bod wedi gwneud cais am gofrestriad ac wedi cael caniatâd [CYN](#) i chi ddechrau gweithio.

- Pwysig**
- Os nad ydych yn bwriadu gweithio yng Nghymru, nid oes angen i chi gofrestru gyda'r CGA.**
- Byddwn yn darparu eich manylion SAC i'r Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu (TRA) yn Lloegr. Bydd hyn yn golygu, os ydych chi'n bwriadu gweithio yn Lloegr, bydd cyflogwyr yn gallu gwirio eich bod wedi derbyn SAC o ganol mis Awst ymlaen.
- Bydd cofnodion a ddelir gan Bensiynau Athrawon (TP) hefyd yn cael eu diweddaru er mwyn i gyflogwyr yng Nghymru a Lloegr allu diweddaru cofnod pensiwn gweithiwr lle/ pan fo hynny'n berthnasol.

- Sut i gofrestru gyda CGA**
- GELLIR YMGEISIO I GOFRESTRU CYN DERBYN SAC** - Cyflwynwch gais i gofrestru nawr i sicrhau y gellir cwblhau ein hasesiad o'ch addasrwydd ar gyfer cofrestru mewn pryd i chi ddechrau gweithio ym mis Medi.
- Rhaid i chi wneud cais am gofrestriad ym mhob categori ar gyfer y gwaith yr ydych am ei wneud. E.e. os ydych chi'n mynd i weithio fel athro ysgol cymwys a gweithiwr cymorth dysgu ysgol yna mae angen i chi wneud cais am y ddau categori (dim ond un ffi y codir arnoch chi)
- Gwnewch eich cais nawr gan ddefnyddio'r [ddolen](#) neu trwy ymweld â www.cga.cymru

- Ffeithiau Allweddol**
- Mae cofrestru gyda'r CGA yn ofyniad statudol yng Nghymru, nid yw'n ddewisol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi a'ch cyflogwr gydymffurfio â'r gofyniad hwn.
 - Ni fyddwch yn gallu cychwyn eich cyfnod Sefydlu statudol fel athro ysgol heb gofrestriad CGA yn y categori hwnnw. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yn: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/sefydlu.html>

Y Cod Ymddygiad Proffesiynol ac Ymarfer ar gyfer Cofrestryddion

Fel unigolyn cofrestredig byddwch yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol y CGA. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwbl gyfarwydd â'r egwyddorion a'r disgwyliadau arnoch chi.

- Beth yw'r Cod?**
- Mae'r Cod ar gyfer ein cofrestreion (www.cga.cymru/Cod_Ymddygiad) – mae'n nodi egwyddorion allweddol ymddygiad da ac arfer sy'n ofynnol gennych chi. Mae yno i lywio eich barn a'ch penderfyniadau y gallech eu gwneud.
- Mae'r Cod hefyd ar gael ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid, dysgwyr a'r cyhoedd i wybod pa safonau ymddygiad ac ymarfer y gallant eu disgwyl gennych.

Pan aiff pethau o chwith

Mae'n ofynnol i'r CGA ymchwilio a chlywed honiadau am ymddygiad neu gymhwysedd unigolyn cofrestredig a allai gwestiynu ei addasrwydd i ymarfer. Mewn achosion lle darganfyddir yr honiadau, mae'n amlwg bod yr unigolion cofrestredig wedi methu â chydymffurfio ag egwyddorion y Cod. Mewn llawer o achosion meant wedyn wedi cael eu gwahardd neu eu hatal rhag ymarfer.

Er mwyn helpu i ymgorffori egwyddorion y Cod, a lle rydym wedi gweld tuddiadau yn ein gwaith achos, rydym wedi cynhyrchu nifer o ganllawiau arfer da i'ch helpu chi. Gallwch eu lawr lwytho o'n gwefan - <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/canllawiau-ymarfer-da.html>

Gwneud y gorau o gofrestriad proffesiynol

Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yn offeryn ar-lein cwbl ddwyieithog a hyblyg sydd ar gael i bob unigolyn cofrestredig.

Byddwch wedi cael mynediad i'r PDP yn ystod eich hyfforddiant. Fel Athro Newydd Gymwysedig (ANG) mae'n ofynnol i chi gwblhau a chynnal eich Proffil Sefydlu ar-lein trwy'r PDP. Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich Proffil Sefydlu ac am nodi a chofnodi tystiolaeth o sut rydych chi'n cwrrd â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arwain eich ymarfer proffesiynol.

Evch i <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/sefydlu.html> i gael mwy o wybodaeth.

Gwasanaethau

Rydym yn cynnig ystod o wasanaethau fel yr amlinellir isod. Mae mwy o wybodaeth am y rheini ynghyd â chymryd rhan yn y CGA ar gael ar ein gwefan www.cga.cymru neu trwy ein cychlythyr bob tymor i unigolion cofrestredig. Cadwch lygad amdano gan y bydd yn rhoi'r wybodaeth diweddariell i chi am y gweithgareddau y mae'r CGA yn canolbwyntio arnynt ac efallai y byddwn yn gofyn am eich help gyda'r rheini.

Ac yn olaf

Rydyn ni yma i helpu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am eich dyfarniad SAC neu'r gofyniad i gofrestru gyda'r CGA.

Yn ystod yr amseroedd digysail hyn, tra bod ein swyddfeydd ar gau, mae modd cysylltu â ni trwy e-bost (cofrestru@cga.cymru) – pidiwch ag pedi cyn cysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Diolch am ddarllen y canllaw hwn a phob lwc gyda'ch gyrfa yn y dyfodol.

© CGA, 2015

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu na'i throsglwyddo, ar unrhyw ffurf, yn electronig neu'n fecanyddol, gan gynnwys llunio, copio, recordio neu ar ffurf unrhyw system o gadw neu adennill wybodaeth heb ganiatâd blaenorol gan y cyhoeddwr.